

## Taflen Ffeithiau Llinell Gymorth Cymru: Cysylltiad

### Rhagymadrodd

Bydd gan y rhan fwyaf o blant mewn gofal maeth rywfaint o gysylltiad â'u teulu biolegol, hyd yn oed os nad ydynt yn dychwelyd adref. Mae'r daflen ffeithiau hon yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich rôl hanfodol mewn rheoli cysylltiad.

Cred Y Rhwydwaith Maethu bod:

- Gan bob plentyn sy'n derbyn gofal hawl i gael cysylltiad â theulu a chyfeillion oni bai bod eu lles a'u diogelwch yn dynodi nad yw hyn yn bosibl.
- Mae yna gyfrifoldeb ar ofalwyr maeth i hyrwyddo a hwyluso cysylltiad yn weithredol pan fo hyn yn gyson â lles y plentyn.
- Mae yna gyfrifoldeb ar wasanaethau maethu i gefnogi gofalwyr maeth yn eu gwaith o ran cysylltiad.

### Cysylltiad

Mae 'Cysylltiad' yn disgrifio'r cysylltiad rhwng plentyn neu berson ifanc yn eich gofal a'u teulu biolegol. Mae hyn yn cynnwys cysylltiad â'u brodyr a'u chwiorydd.

Gall cysylltiad ddigwydd mewn nifer o ffyrdd:

- cyfarfodydd rhwng y plentyn neu'r person ifanc ac aelodau'r teulu
- galwadau ffôn, yn cynnwys negeseuon testun, ac e-byst Facetime a Skype
- cysylltiad anuniongyrchol: llythyrau a chardiau, fel arfer wedi'u danfon drwy drydydd parti
- cysylltiad digidol drwy gyfrwng cymdeithasol, megis Facebook.

Gall cyfarfodydd ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau. Un enghraifft nodweddiadol yw ystafell sy'n ystyriol o deuluoedd a ddewiswyd gan eich gwasanaeth maethu. Fe all fod heb ei goruchwyllo neu o dan oruchwyliaeth, fel arfer gan aelod o staff. Efallai y gofynnir ichi gael cysylltiad yn eich cartref; er enghraifft, pan fyddwch yn gofalu am faban, ond fe fydd hyn ddim ond os bernir ei fod yn ddiogel i bawb.

Gall gwneud trefniadau sy'n bodloni pawb ac sydd er lles gorau'r plentyn weithiau fod yn gymhleth ac anodd. Caiff y trefniadau'u nodi yn y cynllun lleoli ar gyfer y plentyn. Mae'n rhaid ymgynghori â chi ond mae'n hanfodol eich bod yn cadw at y trefniadau y cytunwyd arnynt.

Mae'n rhaid ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc.

Gweithiwr cymdeithasol y plentyn sy'n rheoli ac yn cydgysylltu trefniadau cysylltu. Gall eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol (SSW) eich helpu i ymdrin â phroblemau ac i drin a thrafod newidiadau ond ni allant newid y trefniadau heb ganiatâd y gweithiwr cymdeithasol. Nid yw'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn gallu newid amledd a hyd cysylltiad, ond fe all fedru sicrhau newid mewn amser neu ddiwrnod (er enghraifft, os yw cysylltiad yn digwydd bod ar ben-blwydd plentyn biolegol).

Dylai fod gennych gopi ysgrifenedig o drefniadau'r cysylltiad, sy'n ymdrin ag:

- amledd
- dyddiadau a dyddiau
- amseroedd dechrau a gorffen
- lleoliad
- trefniadau cludiant
- asesu risg:
  - a gaiff cysylltiad ei oruchwylio gan weithiwr?
  - a oes rhywbeth wedi'i wahardd, e.e., y plentyn a'r rhiant yn mynd y tu hwnt i glyw, pynciau sgwrs, pwy sy'n mynd â phlentyn ifanc i'r toiled?
  - a all pawb fynd allan i, dyweder, y parc ynteu a oes yn rhaid iddynt aros yn yr ystafell ddynodedig?
- unrhyw fater perthnasol arall. Gall hyn fod yn rhywbeth cadarnhaol, megis gweithgaredd y mae'r plentyn a'r teulu'n hoffi'i rannu neu'r rhiant yn paratoi pryd o fwyd iddynt i gyd.

Dylai'ch gwasanaeth maethu ddarparu cymorth ariannol ar gyfer cludiant ac unrhyw gostau eraill yn ymwneud â chysylltiad.

## **Gwneud i gysylltiad weithio dros y plentyn**

Mae gennych rôl ganolog i wneud cysylltiad yn brofiad cadarnhaol i'r plentyn neu'r person ifanc yn eich gofal.

Gall amser teuluol fod yn wrthdrawiadol i'r plentyn neu'r person ifanc. Efallai'u bod yn edrych ymlaen ato a bod yn bryderus yr un pryd. Cofiwch fod:

- Llawer o blant yn gweld eu rhieni fel pwy y mae arnynt eisiau iddynt fod – nid pwy ydynt.
- Gall cysylltiad eu hatgoffa o golled.
- Gallant eich gwrthod chi ac uniaethu â'u rhieni, neu i'r gwrthwyneb feio a gwrthod eu rhieni.
- Gall cysylltiad arwain at or-gyffro, ymddygiad heriol, gorbryder, tristwch/brwyni neu'r plant yn mynd yn anarferol o ddistaw.

Ar ôl cysylltiad, cadwch at y cyngor hwn:

- Gwnewch amser i fod ar gael fel bod ganddynt berson cysurion, dibynadwy a chyson gyda nhw.
- Os yw'n ymarferol, ewch â nhw yno ac ewch i'w nôl.
- Byddwch yn ddigyffro, yn amyneddgar ac yn sensitif.
- Deall y teimladau y tu ôl i'w hymddygiad.
- Peidiwch â barnu.
- Cofnodwch eu hadweithiau ar ôl cysylltiad a rhannwch nhw â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.

Gall cysylltiad fod yn wrthdrawiadol i ofalwyr, hefyd. Mae'n galed gweld plant wedi'u cynhyrfu neu'n gythryblus. Mae ffurfio cysylltiadau gweithio â'r teulu biolegol yn sgil hanfodol, yn ogystal â bod yn ofyniad ar bob gofalwr maeth. Mae'n anodd, yn enwedig os yw'r teulu'n annibynadwy, ac yn gwrthod y plentyn neu'n beirniadu'ch gofal.

Mae adborth gan ofalwyr yn awgrymu:

- Cofiwch, mae gweithio â'r teulu biolegol er lles gorau'r plentyn. Byddant yn teimlo'n fwy diogel os byddwch chi a'u teulu'n cyd-dynnu.
- Ceisiwch beidio â barnu.
- Cadwch at gytundeb y cysylltiad.
- Byddwch yn amyneddgar.

Cadwch eich cofnodion yn wrthrychol ac yn gyfoes – mae'r hyn a ddywed ac a wna'r plentyn cyn ac wedi cysylltiad yn neilltuol o werthfawr.

Byddwch yn ymwybodol o'r materion hyn. Mae'n rhaid i'ch gwasanaeth maethu gynnig y gefnogaeth iawn:

- Siaradwch amdanynt yn rheolaidd â'ch gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.
- Mynychwch grwpiau hyfforddi a chefnogi – mae gan ofalwyr maeth eraill yr un teimladau, hefyd.
- Deallwch beth mae cysylltiadau biolegol yn ei olygu i blentyn.
- Byddwch yn ymwybodol o'ch adwaith i'r teulu biolegol a sut mae'r plentyn yn eu gweld nhw.
- Gadewch i'r plentyn rannu'i deimladau'n agored am gysylltiad â chi, yr hyn y mae'n ei hoffi, yr hyn sy'n ei gythryblu, ei ansicrwydd dealladwy, heb farnu neb.

## **Cysylltiad rhwng brodyr a chwiorydd**

Mae cysylltiad rhwng brodyr a chwiorydd yn bwysig am yr un rhesymau hyn. Efallai bod brodyr a chwiorydd yn byw gartref neu gyda gofalwyr maeth eraill. Efallai mai cysylltiadau brodyr a chwiorydd yw'r cysylltiad hwyaf a gaiff person, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y gall brodyr a chwiorydd sy'n derbyn gofal gollu cysylltiad â'i gilydd os cânt eu gwahanu. Mae brodyr a chwiorydd yn arwyddocaol ar gyfer hunaniaeth pob plentyn, ymdeimlad o rannu hanes, dilysu profiad ar y cyd a theimladau o berthyn pob plentyn.

Dylid gwneud trefniadau i frodyr a chwiorydd gael cysylltiad. Eto, fe gaiff y rhain eu nodi'n benodol yn y cynllun lleoli.

## **Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu**

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

### **Cyngor**

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

[Fosterlinewales@fostering.net](mailto:Fosterlinewales@fostering.net)

Rhwydwaith Maethu Cymru,

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,

Bae Caerdydd CF10 4DQ.

### **Cefnogaeth ac adnoddau**

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth [thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)

### **Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori**

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn [sarah.mobedji@fostering.net](mailto:sarah.mobedji@fostering.net).

### **Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

### **Cysylltu â Ni**

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:  
Rhwydwaith Maethu Cymru,  
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,  
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: [wales@fostering.net](mailto:wales@fostering.net)

Gwefan: [thefosteringnetwork.org.uk](http://thefosteringnetwork.org.uk)



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017